## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (PONT MENAI, YNYS MÔN A GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU MAWR DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd ac i wneud gwaith ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, wrth Bont Menai rhwng Ynys Môn a Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd sy'n 3 metr o uchder neu'n uwch rhag mynd ar yr A5 Pont Menai. Caniateir i gerbydau'r gwasanaethau brys sydd dros 3 metr o uchder groesi'r Bont mewn amgylchiadau eithriadol, yn amodol arnynt yn pwyso llai na 7.5 tunnell. Dim ond un cerbyd o'r fath a ganiateir ar y bont ar unrhyw adeg benodol.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar yr A5 Ffordd Caergybi tua'r gorllewin i ymuno â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A (Cyfnewidfa Carreg Brân) a theithio ar Bont Britannia i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor. Dylai cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin ddilyn yr A487 tua'r de-orllewin o gylchfan Tafarn yr Antelope i ymuno â'r A55 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 30 Mawrth 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw hyd 23:59 o'r gloch ar 1 Awst 2027, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith a ailamserlennir ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

## THE A5 TRUNK ROAD (MENAI SUSPENSION BRIDGE, ANGLESEY AND GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF LARGE VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to ensure the safety of road users and to undertake works on or near the A5 trunk road at Menai Suspension Bridge between Anglesey and Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles with a height of or over 3 metres from proceeding on the A5 Menai Suspension Bridge. Emergency services vehicles above 3 metres in height will be permitted to cross the Bridge in exceptional circumstances, subject to them weighing less than 7.5 tonnes. Only one such vehicle will be allowed on the bridge at any given time.

The alternative route for eastbound vehicles is via the westbound A5 Holyhead Road to join the eastbound A55 at Junction 8A (Carreg Bran Interchange) and travel on the Britannia Bridge to Junction 9 (Treborth Interchange), Bangor. Westbound vehicles should follow the south-westbound A487 from the Antelope Inn roundabout to join the westbound A55 at Junction 9.

The Order comes into force on 30 March 2026. The temporary prohibition is expected to operate from 00:01 hours on that date until 23:59 hours on 1 August 2027, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before the start of any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government